

Adolygiad gan Gymheiriaid o Ganser Wrolegol 2014

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Ysbytai Treforys, Tywysoges Cymru a Chastell-nedd Port Talbot

YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD

Y Tîm Adolygu gan Gymheiriaid

Enw	Teitl Swydd	Sefydliad
Tom Crosby	Cyfarwyddwr Meddygol	Rhwydwaith Canser De Cymru
Adam Carter	Wrolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Jim Barber	Oncolegydd Clinigol Ymgynghorol	Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Jane Hart	Nyrs Arwain Canser	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Maggie Lucas	Prif Reolwr Canser	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Mansel Thomas	Adolygydd Lleyg	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Dinene Rixon	Rheolwr Adolygu	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Debra Bennett	Arweinydd y Rhaglen Adolygu gan Gymheiriaid	Rhwydwaith Canser De Cymru

Teitl Rhwydwaith	Rhwydwaith Canser De Cymru	
Teitl Sefydliad	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	
Teitl Tîm	Tîm Amlddisgyblaethol Abertawe	
Teitl Dyddiad Adolygu	22 Ionawr 2014	
Enw	Teitl Swydd	Sefydliad
Jon Featherstone	Wrolegydd Ymgynghorol (Arweinydd y Tîm Amlddisgyblaethol)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Michelle Griffiths	Nyrs Glinigol Arbenigol Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Russell Banner	Oncolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Delia Pudney	Oncolegydd Clinigol Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Mau-Don Phan	Oncolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Pradeep Bose	Wrolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Prof John Wagstaff	Oncolegydd Meddygol Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Amol Pandit	Wrolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Beth Birch	Meddygaeth Liniarol Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Hywel Thomas	Patholegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Ciaran O'Brien	Patholegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Sam Williams	Rheolwr Cyffredinol Cyswllt y Gyfarwyddiaeth ar gyfer Llawfeddygaeth	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Neil Fenn	Wrolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Bev James	Nyrs Glinigol Arbenigol Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Cath Dixon	Nyrs Glinigol Arbenigol Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Sohail Moosa	Wrolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Melanie Simmons	Rheolwr Perfformiad y Gyfarwyddiaeth	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Marisa Bennett	Cymorth y Gyfarwyddiaeth Rheolwr	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Amy Burgess	Cydgysylltydd Tîm Amlddisgyblaethol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Teitl Rhwydwaith	Rhwydwaith Canser De Cymru	
Teitl Sefydliad	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	
Teitl Tîm	Tîm Amlddisgyblaethol Ysbyty Tywysoges Cymru Pen-y-bont ar Ogwr	
Teitl Dyddiad Adolygu	22 Ionawr 2014	
Enw	Teitl Swydd	Sefydliad
Andy Thomas	Wrolegydd Ymgynghorol (Arweinydd y Tîm Amlddisgyblaethol)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Sue Rowland	Nyrs Glinigol Arbenigol Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Alison Townsend	Ymarferydd Nyrsio	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Hywel Thomas	Patholegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Gareth Tudor	Radiologydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Nachi Palaniappan	Oncologydd Ymgynghorol	Velindre NHS Trust
Tudor Young	Radiologydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Graham Hirst	Wroleg Graddfa Staff	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Rob Skyrme	Wrolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Raj Nirula	Wrolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Rhidian Hurlle	Wrolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Sam Williams	Rheolwr Cyffredinol Cyswllt y Gyfarwyddiaeth ar gyfer Llawfeddygaeth	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Jessica Morgan	Cydgysylltydd Tîm Amlddisgyblaethol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Melanie Simmons	Rheolwr Perfformiad y Gyfarwyddiaeth	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Marisa Bennett	Rheolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Themâu Allweddol

1 Strwythur a Swyddogaeth y Gwasanaeth

Mae 2 dîm amlddisgyblaethol Wroleg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Lleolir un yn Ysbyty Treforys, Abertawe, ac un yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Roedd ymrwymiad i gwblhau'r dogfennau hunanasesu gan y ddau dîm, a dywedodd pob aelod eu bod wedi gweld y wybodaeth cyn ei chyflwyno, a bod y ddogfen wedi'i harwyddo gan Arweinydd y Tîm Amlddisgyblaethol. Cafodd y tîm lawer o ganmoliaeth am y cynnwys a'r wybodaeth yr oedd yr hunanasesiad yn ei chynnwys, ac am y lefelau presenoldeb yn ystod yr ymweliad Adolygu.

Tîm Amlddisgyblaethol Abertawe

Lleolir Tîm Amlddisgyblaethol Abertawe yn Ysbyty Treforys. Yn ddiweddar, mae gwasanaethau wedi symud o Ysbyty Treforys i uned ddiagnostig newydd yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. I ddechrau, roedd problem ynghylch capasiti o ran profion diagnostig o ganlyniad i hyn, ond mae gwaith yn mynd rhagddo i gywiro'r broblem hon bellach. Mae cyfleusterau presennol y tîm amlddisgyblaethol yn annigonol, ond mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wrthi'n cwblhau adeilad newydd ar safle Ysbyty Treforys, a gobeithir y bydd ystafell neilltuedig ar gael ar gyfer y tîm amlddisgyblaethol pan fydd yn agor yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Defnyddir y modiwl amlddisgyblaethol yn weinyddol gan Gydgysylltydd y Tîm Amlddisgyblaethol, ond nid oedd yn weithredol yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol. Mae'r Cydgysylltydd yn gwneud cofnodion ar ôl cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol, ac yn eu hanfon at y tîm i'w gwirio, ac yna mewnbynnir y drafodaeth i'r System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru (Canisc). Ni ddefnyddir y modiwl yn fyw, oherwydd y nifer fawr o gleifion a drafodir bob wythnos, a'r ffaith bod cyfleusterau presennol y tîm amlddisgyblaethol yn annigonol. Gellid mynd i'r afael â hyn pan fydd y cyfleusterau newydd ar gael.

Nid oes aelod o Radioleg yn mynychu cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol. Cynhelir cyfarfod Radioleg ar wahân yn ystod amser cinio bob dydd Llun, ond nid oes cyfraniad gan Oncoleg. Trafodwyd y mater hwn â'r arweinydd ar gyfer Radioleg, lle y cytunwyd ar gymorth ar gyfer y tîm amlddisgyblaethol, ond nid oes unrhywbeth wedi digwydd i fynd i'r afael â hyn hyd yma. Y bwriad yw cael tri neu bedwar radiologydd i fod yn rhan o'r tîm amlddisgyblaethol yn ôl system rota. Nodwyd nad oedd Radiologydd Ymgynghorol yn bresennol yn y cyfarfod adolygu. Nid oes aelod o Ofal Lliniarol yn mynychu cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol chwaith, ond teimlwyd bod llwybrau cyfeirio da at yr arbenigedd hwn, a bod ganddo gynrychiolaeth dda a brwdfrydig yn y cyfarfod adolygu.

Bu nifer o archwiliadau mewnol a gynhaliwyd gan y tîm amlddisgyblaethol. Ni chynhelir cyfarfodydd busnes rheolaidd y tu allan i'r tîm amlddisgyblaethol i ystyried materion yn ymwneud â llwybrau, canllawiau ac ati, ond mae trefniadau i gynnal cyfarfod trwy'r dydd yn hwyrach yn yr haf i ystyried y rhain. Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf tua dwy flynedd yn ôl. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnal cyfarfodydd morbidrwydd a marwolaeth lle y trafodir

pob claf perthnasol. Defnyddir y System Cemotherapi a'r System Gweinyddu Cleifion i adnabod y cleifion hyn. Mae hefyd cyfarfod marwolaeth 30 diwrnod ar ôl cemotherapi a gynhelir bob tri mis yn Ysbyty Singleton. Mae lefelau recriwtio i dreialon clinigol yn

Rhoddir gwybod i gleifion am eu diagnosis o ganser drwy broses canlyniadau dros y ffôn. Mae'r broses hon wedi'i harchwilio gan ddefnyddio arolwg cleifion, ac roedd y canlyniadau'n gadarnhaol iawn.

Roedd y lefel cydymffurfio â'r targed 62 diwrnod ar gyfer amserau aros canser yn isel. (Prostad 70%, Pledren 62%). Mae nifer o ffactorau sy'n cyfrannu, megis trosglwyddo gwasanaethau o Ysbyty Treforys i Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, amseroedd aros PSA, a phroblemau yn ymwneud â phroffion diagnostig. Mae systemau olrhain ar waith, a chynhelir cyfarfodydd wythnosol sy'n ystyried llwybrau'r cleifion, a bellach mae un system gweinyddu cleifion yn y Bwrdd Iechyd.

Yr amser aros ar gyfer echdoriad traws wrethrol o diwmor y bledren (TURBT) yw 77 diwrnod, sef yn o'r amseroedd aros hiraf yng Nghymru. Mae'n anochel y bydd hyn yn achosi oedi o ran trin cleifion y darganfuwyd bod ganddynt ganser y bledren sy'n ymledu i'r cyhyrau. Dim ond 8/13 (62%) o gleifion â chanser y bledren sy'n ymledu i'r cyhyrau a gafodd eu trin o fewn y targed i ymgynraedd ato o 93 o ddiwrnodau.

Nid yw meddygon teulu yn cael eu hysbysu am ddiagnosis o fewn 24 awr o drafod y diagnosis yn y tîm amlddisgyblaethol. Roedd hyn am nad oedd meddygon teulu am wybod am y diagnosis nes i'r cleifion gael eu hysbysu. Nid oedd tystiolaeth bod hyn wedi cael ei archwilio.

Ystyriwyd bod gwella cyfathrebu gyda gofal sylfaenol yn her, ond cafwyd rhyngweithio da gyda meddygon teulu dan hyfforddiant. Sefydlwyd sesiwn hyfforddi ddwy flynedd yn ôl ar gyfer meddygon teulu Gorllewin Cymru i dynnu sylw at ddulliau rheoli systemig modern o ganser yr arennau, ond dim ond 15 o bobl a ddangosodd ddiddordeb mewn mynychu hon. Aeth un o'r oncolegwyr i weld yr arweinwyr rhagnodi ar gyfer meddygon teulu er mwyn sefydlu sesiynau addysgol rheolaidd. Sefydlwyd Diwrnod y Bledren yng Ngorllewin Cymru, a chafwyd lefel bresenoldeb dda iawn. Ar hyn o bryd, cynhelir Diwrnod Iechyd Dynion bob blwyddyn, sy'n cynnwys meddygon teulu, ac maent wedi gofyn i gael cynnal y diwrnod hwn ddwywaith y flwyddyn. Mae gan feddygon teulu fynediad at wefan y Bwrdd Iechyd. Ni chynhaliwyd unrhyw arolwg o feddygon teulu ynglŷn â'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn o ofal eilaidd.

Cafwyd problemau o ran capasiti gwelyau. Caiff cleifion eu derbyn am 6p.m. ar y diwrnod cyn eu llawdriniaeth, ac roedd cynlluniau i gael uned Derbyn ar Ddiwrnod y Llawdriniaeth, ond nid yw hyn wedi digwydd hyd yn hyn. Oherwydd rhesymau daearyddol, bydd yn rhaid i gleifion o ardaloedd Sir Benfro ac Aberystwyth sy'n dod i Abertawe am driniaeth gael eu derbyn ddiwrnod cyn y driniaeth o hyd, ac felly roedd y tîm yn benderfynol y byddent ond yn datblygu uned Derbyn ar Ddiwrnod y Llawdriniaeth pe bai cyfleusterau addas yn cael eu darparu i wneud hyn.

Cafwyd problemau o ran mynediad at wasanaethau Oncoleg. Yn ystod y cyfnod a adolygwyd, yr amser aros ar gyfer yr apwyntiad cyntaf gydag Oncolegydd oedd 6 - 8 wythnos, a'r amser aros ar gyfer cemotherapi oedd dros dair wythnos. Nid yw cleifion y bledren yn cael eu hatgyfeirio fel mater o drefn i'r Oncolegydd er mwyn iddo ystyried cemotherapi neo-adjwifant ar gyfer canser y bledren. Roedd yn ymddangos bod hyn o ganlyniad i ddiffyg capasiti Oncoleg, yn ogystal â'r ffaith bod llawdriniaeth sylfaenol yn cael

ei ffafrio. Er enghraifft, o blith 18 o gleifion â chanser y bledren sy'n ymledu i'r cyhyrau, dim ond un claf a gafodd gemotherapi neo-adjwifant. Awgrymodd archwiliad ôl-syllol o'r cleifion hyn mai dim ond lleiafrif o'r cleifion hyn fyddai wedi bod yn addas i dderbyn therapi neo-adjwifant. Nid oedd y rhesymau dros hyn yn glir.

Cyflwynwyd achos busnes yn 2010 am swydd Wro-oncolegydd; dim ond ym mis Chwefror 2013 y penodwyd rhywun i'r swydd. Gwnaed llawer o waith i wella gwasanaethau radiotherapi, ac mae cyflwyno radiotherapi â'i ddwystr wedi'i fodiweiddio yng Nghanolfan Ganser Abertawe dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi arwain at roi'r math hwn o radiotherapi i bob claf 'prostad a chnot pelfig'.

Mae Gwasanaeth Oncoleg Aciwt yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Recriwtiwyd nyrs glinigol arbenigol yn ddiweddar yn Ysbyty Singleton i gynnal rhaglen beilot. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo yn gyfan gwbl i'r broses, ac mae gan y tîm gweithredol achos busnes ar hyn o bryd er mwyn ystyried cyllid. Caiff yr holl waith cemotherapi ei wneud yn y Ganolfan Ganser yn Abertawe, lle mae mynediad 24 awr at wasanaethau Oncoleg.

Mae llwybr cywasgiad metastatig llinyn y cefn yn cael ei ddatblygu. Caiff llawdriniaeth frys ei gwneud yng Nghaerdydd, ac mae achosion llai difrifol yn cael llawdriniaeth yn Abertawe. Sefydlwyd Fforwm Cywasgiad Metastatig Llinyn y Cefn, sy'n cwrdd bob wythnos, a thrafodir yr holl gleifion ynddo.

Mae gwaith laparoscopig ar gyfer prostatectomi radical yn dda iawn, ac mae 32 o 58 (55%) o brostatectomiau radical yn cael eu gwneud drwy'r dull laparoscopig.

Tîm Amlddisgyblaethol Pen-y-bont ar Ogwr

Dylid canmol tîm amlddisgyblaethol Pen-y-bont ar Ogwr am ad-drefnu ei hun yn sylweddol er mwyn gweithredu'r canllawiau a gyhoeddwyd gan NICE yn 2002 ar gyfer gwella canlyniadau, gan adleoli llawfeddygaeth belfig gymhleth i Ysbyty Treforys. Roedd y tîm yn ymddangos yn gydlynol, a dangoswyd arweinyddiaeth ardderchog gan nyrsys clinigol arbenigol yr Adran Wroleg. Lleolir y tîm amlddisgyblaethol yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd diffyg trefniadau cyflenwi ar gyfer cynrychiolaeth Patholeg (20%) ac Oncoleg (27%) yn y tîm amlddisgyblaethol.

Mae llwybr Oncoleg wedi'i rannu, ac mae cemotherapi a radiotherapi yn cael ei wneud yn Ysbyty Felindre ar hyn o bryd i gleifion sydd â chodau post 'CF', ac yn Ysbyty Singleton i gleifion â chodau post 'SA'. Dim ond Oncolegydd Felindre sy'n cyfrannu at y tîm amlddisgyblaethol, ac nid oes trefniadau cyflenwi gan Oncoleg Abertawe. Os caiff cleifion eu hatgyfeirio i Abertawe, rhaid iddynt gael eu trafod yn nhîm amlddisgyblaethol wroleg Ysbyty Treforys cyn cael eu gweld gan yr Oncolegydd, neu raid iddynt gael eu gweld gan Oncolegydd Felindre a dilyn y cyngor a roddir ganddo, a gall hyn achosi oedi yn y llwybr. Teimlwyd bod cael cyfraniad gan Oncoleg Ysbyty Singleton yn y tîm amlddisgyblaethol yn bwysig, ac y byddai hyn yn lleihau oedi yn y llwybr. Os yw rhestri aros yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn cynyddu, caiff y cleifion eu hatgyfeirio i Ben-y-bont ar Ogwr, lle mae modd cynnal archwiliadau. Yn ystod mis Awst 2013, o ganlyniad i gynnydd yn y galw, sefydlwyd clinigau biopsi TRUS ym Mhen-y-bont ar Ogwr er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad. Er bod posibilrwydd y gallai hyn leihau amseroedd aros yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod diffyg cyd-drefnu ar gyfer y broses hon, ac roedd yn anodd cynllunio llifau cleifion yn Ysbyty Tywysoges Cymru o'r herwydd.

Mae Radiolegwyr yn mynychu tua phedwar tîm amlddisgyblaethol gwahanol bob wythnos mewn safleoedd penodol, ac nid yw'r amser paratoi ar gyfer pob un o'r pedwar cyfarfod

wedi'i gynnwys yn eu cynlluniau gwaith. Mae nifer fawr o adroddiadau, ac nid yw sganiau'n cael eu hadolygu cyn cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol. Canlyniad hyn yw y ceir adroddiadau manwl ar y delweddau yn ystod y cyfarfod. Mae pedwar Radiolegydd sy'n adrodd ar sganiau, ond dim ond dau ohonynt sy'n mynychu cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol, felly yn aml mae sganiau'n cael eu hadolygu nad ydynt wedi cael eu gwneud gan y Radiolegwyr sy'n bresennol. Nodwyd bod y gwasanaeth radioleg ehangach yn dda iawn.

Dim ond un sesiwn sydd gan y Patholegwyr yn eu cynlluniau swyddi i baratoi a mynychu cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol, ac mae rhai patholegwyr yn mynychu hyd at dri chyfarfod tîm amlddisgyblaethol penodol bob wythnos. Roedd tri phatholegydd cyfwerth ag amser llawn ar gael yn flaenorol, ond ar hyn o bryd mae 1.6 cyfwerth ag amser llawn, a chyn hir bydd hyn yn lleihau i 1 patholegydd ymgynghorol cyfwerth ag amser llawn. Cafwyd problemau o ran recriwtio i'r swyddi gwag. Codwyd y mater ar lefel weithredol, a chwblhawyd asesiadau risg, ac roedd yn ymddangos bod cynlluniau i ganoli cymorth patholeg yn Abertawe.

Nododd y panel fod y gyfradd drosi laparosgopig yn yr adran wybodaeth (ar gyfer 2012) yn eithaf uchel, ar 20%. Rhoddwyd gwybod i'r panel bod tiwmorau mawr wedi cael eu hechdorri drwy laparosgopi yn ystod y cyfnod adolygu, ac yna cawsant eu trosi'n weithdrefn agored. Cydnabuwyd nad oedd llawfeddygon Ysbyty Tywysoges Cymru yn cael digon o brofiad o ddefnyddio'r dechneg laparosgopig ac felly mae cleifion sydd angen llawdriniaeth laparosgopig bellach yn cael eu hatgyfeirio i Ysbyty Abertawe. Nid oes llawfeddygaeth laparosgopig wedi'i gwneud ym Mhen-y-bont ar Ogwr ers saith mis. Eto, dylid canmol y tîm am helpu i ad-drefnu'r gwasanaeth.

Defnyddir y Modiwl Amlddisgyblaethol yn fyw, ond nid yw'n cael ei arddangos yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol. Nid oedd y rhesymau dros hyn yn glir. Caiff canlyniadau eu gwirio gan y tîm.

Mae problem o ran argaeledd nodiadau achos yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol. Mae hon yn broblem sy'n bodoli ledled y Bwrdd Iechyd, ac roedd y tîm amlddisgyblaethol cyfan yn teimlo bod hyn yn anfodddhaol iawn. O bryd i'w gilydd dim ond setiau dros dro o nodiadau sydd ar gael, oherwydd caiff y cleifion eu gweld mewn gwahanol ysbytai o fewn cwpwl o ddiwrnodau, a hefyd os oes mwy nag un casgliad o nodiadau achos, nid ydynt i gyd ar gael yn y cyfarfod gan fod y casgliadau hyn yn cael eu storio oddi ar y safle. Ar hyn o bryd, defnyddir tri rhif ysbyty ledled y Bwrdd Iechyd, a chaiff y nodiadau eu hanfon yn ôl ac ymlaen rhwng yr ysbytai gan ddefnyddio gwasanaeth trafniadaeth yr ysbytai. Mae'r cydgysylltydd yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cais yn cael ei wneud am nodiadau achos, ac i sicrhau eu bod yn bresennol yn y tîm amlddisgyblaethol. Ar hyn o bryd caiff nodiadau eu sganio, a'r bwriad yw y bydd system nodiadau achos electronig yn cael ei gyflwyno. Cynigiwyd syniadau ynglŷn â'r porth clinigol.

Nid yw'r tîm yn gweithredu dull clinig un stop. Caiff y cleifion eu gweld yn y clinig, ac yna maent yn dychwelyd ar gyfer eu biopsi TRUS. Ar ôl diagnosis cadarnhaol, gwneir penderfyniadau am ddechrau ymchwiliadau cyn i'r claf dderbyn ei ganlyniadau cyntaf. Yna, mae'r ymarferydd nyrsio yn cysylltu â'r claf ynglŷn â bod yn bresennol ar gyfer ymchwiliadau, ac yna mae'r claf yn mynychu'r clinig ar gyfer y canlyniadau, ac i drafod opsiynau triniaeth.

Ar hyn o bryd mae'r tîm yn ceisio gwella'r broses i'r cleifion, a byddant yn treialu dyfais lechen fach newydd, lle bydd y cleifion yn derbyn iPadiu a fydd yn cynnwys yr holl wybodaeth am eu llwybr a'u hopsiynau triniaeth ac ati. Bydd apwyntiadau'n cael eu hanfon at y ddyfais, ac mae fideos am yr ysbyty, aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol, ac unrhyw

gyngor perthnasol yn ymwneud â'u math o ganser hefyd ar gael. Bydd gwaith dechreuol yn cael ei gwblhau ar ffurf cynllun peilot er mwyn darganfod a oes cleifion nad ydynt yn addas ar gyfer y dull hwn o weithio.

Cynhelir archwiliadau pennu camau mewn da bryd. Os yw rhestri aros yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn cynyddu, caiff y cleifion eu hatgyfeirio i Ben-y-bont ar Ogwr, lle mae modd cynnal archwiliadau. Yn ystod mis Awst 2013, o ganlyniad i gynnydd yn y galw, sefydlwyd clinigau biopsi TRUS ym Mhen-y-bont ar Ogwr er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad.

Roedd y lefel cydymffurfio â'r targed 62 diwrnod ar gyfer amserau aros canser yn isel.

Prostad 31% Ch4 2012/13 – 57% Q2 2013/14

Pledren 50% Ch4 2012/13 – 50% Gorffennaf 2013

Bu gwelliant ar gyfer Arennol 25% Ch3 2012/13 – 100% Gorffennaf 2013

Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i broblemau yn ymwneud â threfnu'r apwyntiadau cyntaf, lle cafwyd problemau staffio yn yr adran archebu a throsiant staff rheolaidd, a'r ffaith nad oes gan y gwasanaethau canser reolaeth dros y system archebu. Mae'r amser aros ar gyfer apwyntiadau prostad ac apwyntiadau pledren yn hir. Mae cynlluniau ar waith i gwtogi ar nifer y camau ar gyfer trefnu'r apwyntiadau cyntaf. Mae nifer fach o staff cymorth, ac mae eu cyfrifoldebau wedi cael eu hehangu er mwyn cynnal y gwasanaeth. Teimlwyd nad oedd llwybrau ysgrifenedig ar waith, ac ni chwblhawyd ymarfer mapio i ystyried hyn yn ffurfiol.

Mae cleifion yr amheuir bod ganddynt ganser y bledren yn dilyn llwybr sefydledig, er nad yw hwn wedi'i amlinellu'n ysgrifenedig. Maent yn cael eu cynghori yn y clinig cyn dod yn ôl am fiopsi TRUS, yn hytrach na'r model un stop a ddefnyddir yn Ysbyty Treforys. Gwneir penderfyniadau am ymchwiliadau pennu camau cyn i'r claf dderbyn ei ganlyniadau. Yna, mae'r Ymarferydd Nyrsio (gan gydweithio â'r ymgynghorydd) yn cysylltu â'r claf ynglŷn â bod yn bresennol ar gyfer ymchwiliadau, ac yna mae'r claf yn mynychu'r clinig ar gyfer y canlyniadau ac i drafod opsiynau triniaeth. Mae 'traciwr' ar waith sy'n olrhain yr holl gleifion ar hyd eu llwybr, ac mae'r nyrs glinigol arbenigol yn cwrdd â'r traciwr bob wythnos i geisio mynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn ymwneud â'r llwybr

Mae hefyd problem yn ymwneud ag apwyntiadau ar gyfer y clinig cyn asesiad. Yn flaenorol, roedd proses 'cerdded i mewn', lle rhoddwyd dyddiad i'r cleifion ar adeg y cais. Tynnwyd sylw at y mater hwn ac mae'r modiwl cyn asesiad yn cael ei ystyried.

Mae 'traciwr' ar waith sy'n olrhain yr holl gleifion ar hyd eu llwybr, ac mae'r nyrs glinigol arbenigol yn cwrdd â'r traciwr bob wythnos i geisio mynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn ymwneud â'r llwybr. Ar ôl gwneud biopsi, mae'r nyrs glinigol arbenigol yn olrhain y canlyniadau.

Yr amser aros ar gyfer echdoriad trawswrethrol o diwmor y bledren (TURBT) yw 68 o ddiwrnodau, ac ystyriwyd bod hwn yn rhy hir. Mae llawer o glinigwyr sy'n gwneud TURBT, ac mae hyblygrwydd o ran symud sesiynau i gyd fynd â rhestri aros. Caiff pob TURBT ei wneud yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Os nad yw cleifion yn gallu teithio i Ben-y-bont ar Ogwr, maent yn cael eu gweld yn Abertawe. Ar gyfer canserau'r bledren sy'n ymledu i'r cyhyrau a thriniaeth ychwanegol, dim ond 16% o'r cleifion a gyrhaeddodd y targed. Oherwydd problemau presennol gwasanaethau oncoleg, teimlwyd na fyddai'r targed hwn yn cael ei gyflawni.

Ar hyn o bryd dim ond un system endosgopig sydd, a golyga hyn fod cyfyngiad o ran nifer y gweithdrefnau y gellir eu gwneud, ac mae'n cyfyngu ar allu'r tîm i greu rhestri paralel. Cafwyd problem hefyd o ran sterileiddio offer hyblyg, ac o'r herwydd bu raid canslo rhestri yn ystod mis Rhagfyr. Trafodwyd y mater hwn ar lefel weithredol.

Ar hyn o bryd Ysbyty Felindre sy'n darparu'r gwasanaeth oncoleg aciwt, ac mae gwasanaeth 24 awr yno, lle mae'r cleifion yn cael manylion cyswllt nyrs glinigol arbenigol cemotherapi Ysbyty Felindre. Nid oedd yn ymddangos bod unrhyw gynlluniau clir i ddatblygu gwasanaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Teimlwyd bod hyn yn arbennig o bwysig oherwydd y llwybrau cymhleth ac amrywiol ar gyfer gwasanaethau llawfeddygol ac oncoleg drydyddol, sef dwyrain a gorllewin, yn y drefn honno. Mae gwasanaethau Cywasgiad Metastatig Llinyn y Cefn ar gael drwy'r oncolegydd yn Ysbyty Felindre. Yn anffodus, nid oes mynediad at MRI 24 awr ar benwythnosau.

Mae cysylltiadau da iawn â gofal sylfaenol. Mae digwyddiadau addysgol yn cael eu trefnu, a gwahoddir meddygon teulu i'w mynychu, a chynhelir sgysiau rheolaidd â meddygon teulu gyda'r nos. Mae'r holl wybodaeth ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd, ac mae gan feddygon teulu fynediad ato.

2 Gofal a Phrofiad sy'n Canolbwyntio ar y Claf

Tîm Amlddisgyblaethol Abertawe

Mae pedair nyrs glinigol arbenigol sy'n ymddrin ag is-arbenigeddau o fewn Wroleg, ond nodwyd nad oedd nyrs glinigol arbenigol ar gyfer cleifion arenol. Roedd yr uwch nyrs glinigol arbenigol flaenorol yn arfer gweld cleifion arenol, ond mae wedi gadael y swydd hon bellach, ac yn gweithio mewn swydd arall. Gellir cysylltu â nyrsys clinigol arbenigol 24 awr y dydd ar ddiwrnodau gwaith drwy beiriant ateb. Yn gyffredinol, yr ymgynghorydd sy'n rhannu newyddion gwael, ond mae'r nyrs glinigol arbenigol yn gwneud hyn ar adegau.

Gwnaeth y tîm gymryd rhan mewn arolwg rhwydwaith o gleifion yn 2011. Codwyd nifer o faterion nad oeddent wedi cael sylw clir. Canmolwyd y tîm am y ffaith eu bod eisoes wedi adolygu canlyniadau Arolwg o Brofiad Cleifion Canser Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar, a dangosodd yr arolwg ganlyniadau da iawn i'r gwasanaeth Wroleg.

Nodwyd bod llwybr adferiad gwell ardderchog ar waith.

Tîm Amlddisgyblaethol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae dwy nyrs glinigol arbenigol ar gyfer wroleg, ond nid oes nyrs glinigol arbenigol neilltuedig ar gyfer cleifion arenol. Dim ond pan maent yn mynd am lawdriniaeth y caiff cleifion arenol eu gweld fel cleifion preswyl. Mae cyfyngiad ar y trefniadau cyflenwi oherwydd llwythi gwaith. Ni chynhelir asesiad hollstaidd o anghenion. Mae'r nyrsys clinigol arbenigol wedi ystyried hyn, ond gan fod hyn yn cymryd llawer o amser, ystyriwyd y byddai'n anodd ei roi ar waith. Ni ddatblygir cynllun gofal ysgrifenedig ond rhoddir manylion cyswllt.

Cynhaliwyd arolygon cleifion a chanfuwyd nad oedd llawer o bethau negyddol yn y canlyniadau. Mae'r tîm hefyd wedi chwarae rhan yn yr arolwg diweddar o gleifion gan Macmillan, ac mae'r bwrdd iechyd wedi gweld y canlyniadau, a gwyddys bod canlyniadau da ar gyfer wroleg.

a. Tystiolaeth Gweithiwr Allweddol

Tîm Amlddisgyblaethol Abertawe

Yn gyffredinol, mae'r nyrs glinigol arbenigol yn ymgymryd â rôl y gweithiwr allweddol, ond mewn rhai achosion mae'r ymgynghorwyr yn ymgymryd â'r rôl hon. Nodwyd nad yw hyn yn arferol. Nid oedd tystiolaeth o gofnodi gweithiwr allweddol mewn nodiadau achos y claf neu ar Canisc. Yn gyffredinol, mae cleifion prostad yn gwybod pwy yw eu gweithiwr allweddol cyn cael diagnosis o ganser.

Tîm Amlddisgyblaethol Pen-y-bont ar Ogwr

Y nyrs clinigol arbenigol sy'n ymgymryd â rôl y gweithiwr allweddol. Nid oedd tystiolaeth o gofnodi gweithiwr allweddol mewn nodiadau achos y claf neu ar Canisc.

3 Ansawdd a Chyflenwi Gwasanaeth

Tîm Amlddisgyblaethol Abertawe

Yn gyffredinol, mae'r tîm yn cael cymorth da. Er nad oedd cyfraniad gan ofal lliniarol yn y tîm amlddisgyblaethol, roedd llwybrau atgyfeirio da ar waith. Nid oedd cyfraniad gan radioleg yn y tîm amlddisgyblaethol ychwaith, ac roedd cyfraniad radioleg ar wahân yn cael ei gynnal, ond nodwyd bod cymorth gan y gwasanaeth ehangach yn dda iawn. Ar hyn o bryd mae dwy system radioleg ar waith o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae cynlluniau ar waith ledled Cymru i ystyried system archifo lluniau a chyfathrebu (PACS) Cymru gyfan.

Mae mynediad at wasanaethau seicoleg yng Nghanolfan Maggie, Ysbyty Singleton, lle mae amser aros byr i weld cleifion. Mae hefyd mynediad at gwrselydd seicorywiol yng Nghastell-nedd. Ar hyn o bryd mae gofal lliniarol yn gweithio ar achos busnes ar gyfer cymorth seicoleg yn seiliedig yn y GIG.

Mae diffyg histopatholegwyr, ond mae presenoldeb da yn y tîm amlddisgyblaethol. Ar hyn o bryd mae histopatholegydd ymgynghorol arall yn datblygu diddordeb mewn wroleg. Mae'r amser prosesu ar gyfer canlyniadau biopsi yn ardderchog, sef o fewn pum diwrnod gwaith.

Tîm Amlddisgyblaethol Pen-y-bont ar Ogwr

Ceir cefnogaeth ragorol o ran presenoldeb gwasanaethau canser, radioleg a'r nyrsys clinigol arbenigol. Mae mynediad at wasanaethau seicoleg yng Nghanolfan Maggie, Ysbyty Singleton, lle mae amser aros byr i weld cleifion. Mae hefyd mynediad at gwrselydd seicorywiol yng Nghastell-nedd. Er nad oedd cyfraniad gan ofal lliniarol yn y tîm amlddisgyblaethol, roedd llwybrau atgyfeirio da ar waith.

Mae'r holl wybodaeth i gleifion wedi'i safoni ar draws y Bwrdd Iechyd.

Nid oes mynediad at y Porth Clinigol i gyrchu canlyniadau. Ar hyn o bryd mae dwy system ar waith o fewn y Bwrdd Iechyd, ond mae cynlluniau ar y gweill i symud at ddefnyddio un system yn hwyrach yn y flwyddyn.

a. Data Canlyniadau'r Gwasanaeth

	Treforys	Tywysog s Cymru	Castell- Nedd Port Talbot	Targed
Nifer yr atgyfeiriadau cleifion dan amheuaeth frys o ganser a dderbyniodd driniaeth o fewn 62 diwrnod	Prostad 44/63 (70%) Pledren 8/13 (62%) Arennol 17/18 (94%)	Prostad (57%) Pledren Amh Arennol 0%	Prostad (57%) Pledrenr N/A Arennol 0	95%
Nifer yr atgyfeiriadau cleifion nad ydynt dan amheuaeth frys o ganser a dderbyniodd driniaeth o fewn 31 diwrnod	Prostad 96/96 (100%) Pledren 17/17 (100%) Arennol 8/12 (67%)	Prostaad (100%) Pledren (100%) Arennol (100%)	Prostad (100%) Pledren (100%) Arennol (100%)	98%
Nifer y cleifion gyda graddfa cyn-triniaeth wedi ei chofnodi	Prostad 158/177 (89%) Pledren 31/31 (100%) Arennol 16/44 (36%)	Prostad 126/150 (84%) Pledren 32/34 (94%) Arennol 12/38 (31.5%)	Prostad 2/4 (50%) Pledren 2/2 (100%) Arennol ??	70%
Nifer y cleifion a gafodd eu rhoi ar dreialon clinigol	143/ 294 (49%)	11 (5%)	0	10%
Nifer y cleifion yn rhoi i Fanc Canser Cymru	95	0	0	
Nifer y cleifion a drafodwyd yn y tîm amlddisgyblaethol	Prostad 251 (rhanbarthol) Pledren 31/31 (100%) Arennol 26/26 (100%)	Prostad 150/150 (100%) Pledren 34/34 (100%) 21/21 (100%)	Prostad 4/4 (100%) Pledren 2/2 (100%) Arennol 5/5 (100%)	100%
Amser canolrifol ar gyfer cleifion â charsinoma trosiannol celloedd y bledren sy'n ymledu i'r cyhyrau ar ddechrau triniaeth iachaol ddiffiniol	8/13 (61.5%)	8/13 (61.5%)	121.5 Diwrnod	93 Days
Amser canolrifol ar gyfer echdoriad trawswrethrol o diwmor y bledren (TURBT)	77 Diwrnod	77 Diwrnod	68 Diwrnod	

Archwiliadau, prosiectau a chanlyniadau allweddol

Tîm Amlddisgyblaethol Abertawe

Cynhaliwyd archwiliad o oedi mewn trafodaethau'r tîm amlddisgyblaethol o ganlyniad i oedi wrth drosglwyddo sbesimenau histopatholeg o Orllewin Cymru. Codwyd y mater â chlinigwyr arweiniol cancer yn Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg, ac ailgyflwynwyd y protocol ar gyfer atgyfeirio gan y tîm amlddisgyblaethol. Yn y cam ail-archwilio, gwelwyd bod yna welliant sylweddol. Ac eithrio BAUS, nid oes archwiliad wroleg cenedlaethol.

Tîm Amlddisgyblaethol Pen-y-bont ar Ogwr

Ar hyn o bryd mae'r tîm yn archwilio'r defnydd a wneir o dechnoleg cystosgopi 'golau glas' i wella lefelau darganfod a thrin cancer y bledren.

Sylwadau cyffredinol

Roedd lefelau cofnodi'r cam cyn triniaeth yn isel ar gyfer tîm amlddisgyblaethol cancer arenol Abertawe (36%) a thîm amlddisgyblaethol Pen-y-bont ar Ogwr (31.5%).

4 Adolygiad o Wybodaeth Glinigol yn y Nodiadau Clinigol a Thîm Amlddisgyblaethol Canisc Abertawe

Ni ddangosodd adolygiad o bedair set o nodiadau achos gan ddefnyddio'r rhestr wirio ar gyfer adolygiad gan gymheiriaid unrhyw dystiolaeth o gofnodi'r gweithiwr allweddol, a dim ond dwy set o nodiadau achos o blith pedair oedd yn dangos bod meddyg teulu wedi'i hysbysu o fewn 24 awr ar ôl y diagnosis. Roedd cynlluniau gofal wedi eu cofnodi ym mhob set o nodiadau achos a welwyd gan y nyrs glinigol arbenigol, ac roedd cynllun rheoli cancer wedi'i gofnodi mewn tair o'r pedair set.

Wrth wirio rhai nodiadau achos yn Canisc, eto, nid oedd tystiolaeth o gofnodi'r gweithiwr allweddol nac o hysbysu'r meddyg teulu o fewn 24 awr ar ôl y diagnosis, ac nid oedd y nyrs glinigol arbenigol wedi eu gweld. Cofnodwyd cynlluniau gofal a chynlluniau rheoli cancer mewn tair set o nodiadau achos o blith pedair.

Tîm Amlddisgyblaethol Pen-y-bont ar Ogwr

Dangosodd adolygiad o bum set o nodiadau achos gan ddefnyddio'r rhestr wirio ar gyfer adolygiad gan gymheiriaid nad oedd tystiolaeth o gofnodi'r gweithiwr allweddol, ac ym mhedair set o nodiadau achos o blith pump gwelwyd eu bod wedi hysbysu meddyg teulu o fewn 24 awr ar ôl y diagnosis. Roedd cynlluniau gofal wedi eu cofnodi ym mhob set o nodiadau, ond dim ond dwy set o blith y pump a welwyd gan y nyrs glinigol arbenigol, a dim ond un allan o'r pump oedd â Chynllun Rheoli Cancer.

Wrth wirio'r un nodiadau achos yn Canisc, eto nid oedd tystiolaeth o gofnodi'r gweithiwr allweddol nac o hysbysu'r meddyg teulu o fewn 24 awr ar ôl y diagnosis. Mewn tair set o nodiadau achos o blith pump, cofnodwyd bod y nyrs glinigol arbenigol wedi eu gweld, a chofnodwyd cynlluniau gofal a chynlluniau rheoli cancer.

5 Ymqysylltu â'r Rheolwyr

Tîm Amlddisgyblaethol Abertawe

Cynhelir cyfarfodydd misol ar gyfer y gyfarwyddiaeth, a chynhelir cyfarfodydd gweithredol cancer ddwywaith y flwyddyn. Bydd grŵp yn dechrau ym mis Ebrill a fydd yn edrych ar y

Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser. Rhannwyd y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser gyda'r tîm wroleg, a datblygwyd cynllun gweithredu ar gyfer pob safle â thiwmor.

Gwnaeth y tîm amlddisgyblaethol adrodd eu bod wedi chwarae rhan lawn yn y broses adolygu gan gymheiriaid, gan gynnwys casglu tystiolaeth a chyflwyno data. Roedd hyn yn amlwg yng nghynnwys yr hunanasesiad a gyflwynwyd.

Tîm Amlddisgyblaethol Pen-y-bont ar Ogwr

Ar hyn o bryd mae cancer wedi'i leoli o fewn tair cyfarwyddiaeth wahanol. Dywedodd y tîm ei fod wedi cael cryn anhawster yn ymgysylltu â thimau rheoli'r gwasanaeth, a bod yr arweinyddiaeth a'r swyddogaethau o fewn y cyfarwyddiaethau wedi eu rhannu. Roedd y panel yn teimlo y gallai hyn arwain at ddiffyg eglurder ynglŷn â phwy oedd yn gyfrifol am wasanaethau cancer o fewn strwythur rheoli Ysbyty Tywysoges Cymru. Ni fu cymorth neilltuedig gan y rheolwyr oherwydd salwch ac ati yn ystod y tair blynedd diwethaf. Bydd rheolwr newydd yn dechrau'r swydd yn ystod yr wythnosau nesaf, a bydd yn cwrdd â'r tîm clinigol i drafod unrhyw broblemau.

Ymddangosai fod barn gytûn bod gwasanaethau wedi gwaethygu o ran cymorth seilwaith, ers i Ysbyty Tywysoges Cymru gael ei ymgorffori i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull rheoli agored, a chan fod yr ysbyty'n fach o ran maint, ceir cyfathrebu da.

Ni wnaeth y tîm chwarae rhan mewn datblygu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser, ond mae wedi gweld y ddogfen. Bydd gweithdy ar gyfer y Cynllun Cyflawni yn cael ei gynnal ym mis Mawrth 2014.

Gwnaeth y tîm amlddisgyblaethol adrodd eu bod wedi chwarae rhan lawn yn y broses adolygu gan gymheiriaid, gan gynnwys casglu tystiolaeth a chyflwyno data. Roedd hyn yn amlwg yng nghynnwys yr hunanasesiad a gyflwynwyd.

Ar hyn o bryd mae dirprwy reolwr y gyfarwyddiaeth yn mynychu'r cyfarfodydd olrhain wythnosol.

6 Diwylliant y Timau

Tîm Amlddisgyblaethol Abertawe

Nododd y panel fod perthynas waith ragorol o fewn y tîm a chydag ysbytai trydyddol. Yn dilyn marwolaeth un o'r prif uwch ymgynghorwyr yng Ngorllewin Cymru, atgyfeiriwyd yr holl lawdriniaeth i Abertawe i ddechrau. Aethpwyd i'r afael â hyn, ac mae'r tîm yn mentora eu cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd trydyddol, sydd bellach yn gallu gwneud y triniaethau'n fewnol.

Roedd y lefel ymgysylltu â'r broses adolygu gan gymheiriaid yn ardderchog, roedd y gyfradd dychwelyd yr hunanasesiad yn ganmoladwy, ac roedd y tîm adolygu yn teimlo bod hyn yn nodweddiadol o awydd tîm amlddisgyblaethol Abertawe i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da i gleifion, yn ogystal â brwdfrydedd dros wella hyn mewn rhai meysydd, a chydabyddiaeth o'r heriau yn y dyfodol.

Tîm Amlddisgyblaethol Pen-y-bont ar Ogwr

Nododd y panel fod perthynas waith ragorol o fewn y tîm.

Roedd yn ymddangos nad oedd y tîm amlddisgyblaethol yn ymwybodol o fodolaeth siarter y tîm amlddisgyblaethol, ond yn benodol, teimlwyd y byddai'r tîm amlddisgyblaethol yn elwa'n fawr ar 'gyfarfodydd busnes' i ystyried llwybrau cleifion a mentrau ar gyfer archwilio a gwella gwasanaethau. Gallai hyn arwain at fynegi anghenion cymorth gwasanaethau'n fwy clir, megis cynlluniau neilltuedig yn nodi'r amser yn y swydd ar gyfer radioleg a phatholeg.

Roedd yn glir bod canfyddiad yn y tîm amlddisgyblaethol nad oedd rheolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn ymgysylltu'n llawn â thimau amlddisgyblaethol Ysbyty Tywysoges Cymru, ac nad oedd digon o adnoddau gan y gwasanaethau radioleg a phatholeg, er enghraifft, a bod llifau a llwybrau cleifion y tu hwnt i reolaeth y tîm clinigol.

ARFERION DA / CYFLAWNIADAU ARWYDDOCAOL

Tîm Amlddisgyblaethol Abertawe

- Roedd perthynas waith ragorol o fewn y tîm, a chyfraniad at y broses adolygu gan gymheiriaid, ac mae hyn yn dangos bod balchder mewn datblygiadau gwasanaeth ardderchog, a gonestrwydd ynghylch materion sydd angen sylw
- Datblygu gwasanaeth IMRT yn Ysbyty Singleton
- Canlyniadau biopsi yn cael eu dychwelyd o fewn pum diwrnod gwaith
- Gwaith laparoscopig ar gyfer prostatectomi radical
- Cyflwyno llwybr adferiad gwell
- Cyflwyno biopsïau templed trawsberineal

Tîm Amlddisgyblaethol Pen-y-bont ar Ogwr

- Cyflwyno dyfais lechen iPad fach ar gyfer gwybodaeth i gleifion ar hyd y llwybr
- Gwneud sganiau DEXA ar gleifion sy'n derbyn therapi endocrinaidd tymor hir
- Ad-drefnu gwasanaethau llawfeddygol wroleg
- Cyflwyno cystosgopi golau glas i wella triniaethau canser y bledren.

PERYGLON AR UNWAITH

Dim

PRYDERON DIFRIFOL

Tîm Amlddisgyblaethol Abertawe

- Diffyg presenoldeb radioleg mewn cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol.

Tîm Amlddisgyblaethol Pen-y-bont ar Ogwr

Dim

Tîm Amlddisgyblaethol Abertawe

- Diffyg cydymffurfiaeth â'r targed 62 diwrnod
- Nid oes cyfarfodydd busnes yn cael eu cynnal y tu allan i gyfarfod wythnosol y tîm amlddisgyblaethol
- Nid yw cemotherapi neo-adjwifant yn cael ei ddefnyddio digon ar gyfer cleifion y bledren
- Amser aros sylweddol ar gyfer yr apwyntiad cyntaf gydag oncolegydd 6-8 o wythnosau
- Mae'r amser aros ar gyfer dechrau cemotherapi yn fwy na thair wythnos
- Nid oes nyrs glinigol arbenigol ar gyfer cleifion arenol, er bod cymorth ardderchog sy'n benodol i'r safle ar gyfer is-safleoedd eraill.

Tîm Amlddisgyblaethol Pen-y-bont ar Ogwr

- Diffyg canfyddedig o ran ymgysylltu â thîm amlddisgyblaethol Ysbyty Tywysoges Cymru gan reolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Nid oes amser mewn cynlluniau gwaith radiolegwyr ar gyfer paratoi ar gyfer cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol
- Efallai nad yw radiolegwyr sy'n mynychu'r tîm amlddisgyblaethol wedi adrodd ar y sganiau a adolygir ganddynt
- Diffyg cydymffurfiaeth â'r targed 62 diwrnod
- Nid oes nyrs glinigol arbenigol ar gyfer cleifion arenol
- Dim ond un system endosgopi sydd, ac mae hyn yn arwain at broblemau capasiti
- Nid oes nodiadau achos ar gael ar gyfer cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol
- Diffyg trefniadau cyflenwi ar gyfer yr oncolegydd
- Nid oes cyfraniad gan oncolegwyr a leolir yn Ysbyty Singleton yn y tîm amlddisgyblaethol, er gwaethaf y ffaith bod rhai cleifion yn derbyn gwasanaethau oncoleg yn y ganolfan honno.